Health and Care Research Wales Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Trosglwyddo addysg gynradd i uwchradd yn ystod pandemig Covid-19: astudiaeth ansoddol o brofiadau disgyblion cyfrwng Cymraeg a'u rhieni di-Gymraeg

Awst 2023

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

1872 Prifysgol Aberystwyth University

Prifysgol Bangor University

**Cynhaliwyd yr astudiaeth gan Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor**

# Cyfranwyr yr Adroddiad

*Awduron*
Siân Lloyd-Williams, Enlli Môn Thomas, Rhodri Aled Evans

*Cyfraniad ychwanegol*
Lowri Jones, Delyth Jones, Rhian Tomos

*Tîm y Ganolfan Dystiolaeth*
Natalie Joseph-Williams, Abubakar Sha'aban, Adrian Edwards

**Dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r Ganolfan Dystiolaeth:** Gorffennaf 2023

**Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad terfynol gan y Ganolfan Dystiolaeth**: Awst 2023

**Dylid cyfeirio at yr adroddiad yma fel:** Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Trosglwyddo addysg gynradd i uwchradd yn ystod pandemig Covid-19: astudiaeth ansoddol o brofiadau disgyblion cyfrwng Cymraeg a'u rhieni di-Gymraeg (PR0005) Awst 2023.

**Ymwadiad:** Safbwyntiau'r awduron yw'r safbwyntiau a fynegir yn y cyhoeddiad hwn, nid o reidrwydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdrawiad buddiannau.

## Trosglwyddo addysg gynradd i uwchradd yn ystod pandemig Covid-19: astudiaeth ansoddol o brofiadau disgyblion cyfrwng Cymraeg a'u rhieni di-Gymraeg

## CRYNODEB GWEITHREDOL

### Cefndir / Nod yr Astudiaeth

Achosodd pandemig COVID-19 newid cyhoeddus a phersonol sylweddol, gan gynnwys cau a chloi ysgolion ym mis Mawrth 2020, ac yn ddiweddarach ym mis Ionawr 2021. Bu i rhai teuluoedd ddarganfod fod cael mynediad i'r Gymraeg - o ran cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, ac o ran cymorth ehangach - yn heriol yn ystod y pandemig. Roedd yr anawsterau ynghylch cysylltiad â'r Gymraeg yn ystod y pandemig yn arbennig o broblematig i ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg a oedd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2021; Thomas & Lloyd-Williams et al. (2021). Tra bod ymchwil blaenorol (Thomas & Lloyd-Williams et al, 2021) wedi nodi argymhellion pwysig, adnabuwyd yr angen am ymchwil ansoddol pellach i **gasglu barn disgyblion a'u rhieni o phrofiad cyffredinol y pandemig a'r effaith gyffredinol a chafodd y pandemig ar sgiliau iaith.**

Mae'r astudiaeth hon yn disgrifio canfyddiadau a phrofiadau parau o blentyn (disgybl) a rhiant mewn teuluoedd di-Gymraeg lle mae eu plentyn/plant yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r astudiaeth yn casglu profiadau disgyblion, sydd wedi cofrestru mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a'u rhieni di-Gymraeg, a drosglwyddodd rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn ystod y pandemig.

### Methodoleg

Roedd amserlen yr astudiaeth hon yn cynnwys cyfnod paratoi rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr, 2022. Casglwyd a dadansoddwyd y data rhwng Ionawr a Mehefin, 2023.

Roedd y fethodoleg yn cwmpasu cynllun astudiaeth ansoddol, gan fabwysiadu dull samplu di-debygolrwydd, a defnyddiwyd strategaethau samplu a recriwtio pwrpasol i dargedu disgyblion sydd wedi cofrestru mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'u rhieni di-Gymraeg.

Defnyddiwyd cyfweliadau lled-strwythuredig a dulliau a ddefnyddir lluniau i ennyn drafodaeth i archwilio profiadau byw y cyfranwyr. Roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar brofiadau disgyblion o ddysgu yn y cartref yn ystod y pandemig, eu profiadau o drosglwyddo o addysg cynradd i'r uwchradd, a dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfyngiadau clo COVID-19; a phrofiad rhieni wrth gefnogi eu plant yn ystod y pandemig. Roeddent hefyd yn ymdrin â chwestiynau mwy cyffredinol yn ymwneud â safbwyntiau am eu perthynas â'r Gymraeg.

### Allbynnau a chanfyddiadau allweddol

Mae'r adroddiad yma yn cynnwys data gan naw pâr o blant / rhieni (18 cyfranogwr).

Mae'r dyfyniad isod yn disgrifio'n gryno brofiadau cyffredinol yr holl deuluoedd a gyfwelwyd (disgyblion a rhieni) ac yn amlygu'r diffyg cyfle i ymgysylltu'n weithredol â, ynghyd a defnyddio, y Gymraeg yn ystod y cyfyngiadau clo:

> *'Yn fy marn i mi roedd e' (datblygu fy sgiliau Cymraeg) ar rhywfaint o saib... [oherwydd] doeddwn i ddim yn ei ddefnyddio cymaint.'*
>
> *(Plentyn 2)*

Mae canfyddiadau allweddol eraill yr ymchwil yn cynnwys:

- Cryfhau'r **cysylltiadau rhwng lleoliadau cynradd ac uwchradd** i hwyluso'r broses drosglwyddo
- **Asesu sgiliau Cymraeg disgyblion** rhwng cyfnodau allweddol er mwyn adnabod unrhyw **gymorth** sydd ei angen e.e. yn ystod y cyfnod pontio o'r cynradd i'r uwchradd.
- Yr angen i sicrhau **cyfathrebu effeithiol** rhwng y cartref a'r ysgol e.e. y defnydd o apiau cyfathrebol fel 'see-saw', 'school gateway' ac ati.
- Yr angen i wneud defnydd effeithiol o **gyfathrebu dwyieithog** e.e. darparu rhestr o derminoleg allweddol a fyddai'n cynorthwyo rhieni i gael mynediad at adborth a'i ddeall.
- Cynyddu **cyfleoedd** i ddefnyddio'r Gymraeg **o fewn a thu allan i'r ysgol**.

### Goblygiadau Polisi ac Ymarfer

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r goblygiadau allweddol ar gyfer polisi ac ymarfer (mae'r tabl llawn i'w weld yn adran 5).

| GOBLYGIADAU | |
|---|---|
| **1. Cefnogi Polisi** | Pwysigrwydd cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.<br>• h.y. darpariaeth allgyrsiol, wedi'i chyfryngu gan ysgolion a rhanddeiliaid eraill. |
| | Adnabod gwerth cefnogi sgiliau Cymraeg rhieni<br>• Parhau i gynnig cyfleoedd pellach i rieni ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. |
| **2. Cefnogi Awdurdodau Addysg Leol ac ysgolion i gynorthwyo disgyblion** | Manteision symleiddio'r broses drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.<br>• Gellid mabwysiadu adborth a strategaethau ar gyfer cefnogi sgiliau Cymraeg ar draws clystyrau ysgol (yn benodol rhwng diwedd CA2/dechrau CA3).<br>• Asesu sgiliau Cymraeg. |
| | Cefnogi Trawsieithu<br>• Mae ymatebion disgyblion (gweler tud.44 o'r adroddiad) yn awgrymu y buasai'r defnydd o strategaethau trawsieithu yn galluogi'r disgybl i wneud defnydd o'i repertoire ieithyddol llawn. |
| **3. Cefnogi ysgolion i gynorthwyo rhieni** | Pwysigrwydd gwell ymwybyddiaeth o natur ieithyddol y cartref<br>• Gallai ymwybyddiaeth ac ystyriaeth bellach i natur ieithyddol y cartref (a allai effeithio ar yr angen am |

| | |
|---|---|
| | ddysgu hunangynhaliol) fod yn fuddiol i gefnogi lles disgyblion.<br>• Dylid ystyried penodi aelod allweddol o staff fel pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch cefnogi disgyblion yn y Gymraeg/gyda'r Gymraeg gynorthwyo ysgolion i ddeall y cymorth ieithyddol sydd ar gael i ddisgyblion yn y cartref. |
| | Pwysigrwydd cyfathrebu dwyieithog effeithiol.<br>• Dylid sicrhau bod rhestr o dermau allweddol o fewn pynciau unigol ar gael i rieni (gallai darparu cyfieithiadau o ymadroddion cyffredin/geiriau allweddol a ddefnyddir mewn adborth helpu rhieni i ddilyn cynnydd eu plentyn).<br>• Ysgolion i archwilio sut maent yn cyfathrebu â rhieni h.y. defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol/apiau negeseuon. |

Bydd mynd i'r afael â'r goblygiadau hyn yn gymorth i:

- Llywio **polisi Llywodraeth Cymru** ar gefnogi sgiliau Cymraeg disgyblion.
- Rhoi **arweiniad i ysgolion cyfrwng Cymraeg** a rhanddeiliaid eraill ar gymorth pellach y gellid ei gynnig i ddisgyblion a rhieni o gartrefi di-Gymraeg.
- Cefnogi a **chryfhau sgiliau Cymraeg disgyblion yn ystod y broses drosglwyddo** (yn benodol disgyblion o gartrefi di-Gymraeg sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, er bod llawer o ganfyddiadau'r astudiaeth hon yn berthnasol i bob disgybl).
- **Cefnogi rhieni** disgyblion sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg (yn benodol, ond nid yn unig, rhieni lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad yn y cartref).
- Amlygu pwysigrwydd datblygu **cyfleoedd ychwanegol** i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r wers, a thu hwnt i gyd-destun yr ysgol.

**Argymhellion ar gyfer Ymchwil Pellach**

Gellir gweld argymhellion ymchwil y dyfodol yn Adran 5.4. Yn benodol, rydym yn nodi'r angen am ymchwil pellach yn y meysydd canlynol:

- **Effaith COVID-19 ar sgiliau Cymraeg disgyblion iau**
  Mae'r canfyddiadau'n dangos yr effeithiwyd ar sgiliau iaith plant iau e.e. 'y brawd ieuengaf [brawd chwaer 7 oed] … oherwydd Covid nid yw'n siarad cystal…' . Llwyddodd y disgyblion hŷn i symud ymlaen yn hunangynhaliol yn ystod y cyfnod trosglwyddo o'r cynradd i uwchradd o ganlyniad i brofiadau blaenorol cyfoethog a systemau trochi dwys yn ystod yr ysgol gynradd. Mae angen gofal i sicrhau bod disgyblion iau heb y profiadau blaenorol hyn o gartrefi di-Gymraeg yn gallu teimlo'n hyderus i barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg.

- **Cefnogaeth a ddarperir gan ddisgyblion hŷn i frodyr a chwiorydd iau**
  Disgrifiodd sawl teulu y cymorth yr oedd disgyblion yn aml yn ei roi i frodyr a chwiorydd iau yn ystod y pandemig, gan amlygu disgwyliadau ychwanegol ar y disgyblion hyn, disgwyliadau nad ydynt efallai yn amlygu eu hunain cymaint mewn teuluoedd Cymraeg eu hiaith. Dylai ymchwil yn y dyfodol geisio archwilio'r mater hwn a nodi darpariaeth i ddatblygu ac adeiladu sgiliau disgyblion iau, a sicrhau bod

disgyblion hŷn yn cael eu cefnogi’n ddigonol i gwblhau eu gwaith eu hunain, yn ogystal â chynorthwyo gydag anghenion cymorth brodyr a chwiorydd iau.

- **Cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
  Gan fod y set ddata hon yn adlewyrchu ffocws cynyddol ar ddysgu annibynnol (yn enwedig yn yr ysgol uwchradd) mae hyn hefyd yn amlygu'r angen i ystyried gwahanol anghenion disgyblion unigol yn ofalus – e.e., efallai y bydd angen mwy o fewnbwn ar rai disgyblion mewn Cymraeg llafar tra bod eraill angen dull mwy cytbwys lle gallant gael gafael ar wybodaeth, ar yr un lefel, yn y ddwy iaith. Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu'n benodol yr angen i asesu sgiliau Cymraeg disgyblion a gall yr asesiad hwn fod yn arbennig o bwysig i ddisgyblion ag ADY sydd o bosib angen rhagor o adnoddau a chymorth. Gallai hyn gynnwys defnydd cynyddol o gyfathrebu dwyieithog a fyddai'n caniatáu i rieni/gofalwyr gynnig cymorth pellach yn y cartref. Byddai ymchwil bellach, sy'n cynnwys ffocws ar ddisgyblion ag ADY yn cynnig mewnwelediad pellach i'r lefel o gymorth sydd ei angen.

- **Archwilio’r rhesymau dros ymgysylltiad parhaus ag addysg cyfrwng Cymraeg**
  Adnabu rhieni fod annibyniaeth a dyfalbarhad eu plentyn/plant yn cynorthwyo gyda’r broses drosglwyddo. Fodd bynnag, os nad yw disgyblion yn gallu gweithio’n annibynnol yn eu dysgu ac, os bydd lefelau’r cyfathrebu/gwybodaeth ddwyieithog a ddarperir i rieni yn lleihau yn yr ysgol uwchradd (fel yr awgrymir gan y data gyfredol), mae’n bosibl yr effeithir ar ymgysylltiad disgyblion a rhieni a’u hymrwymiad parhaus i addysg cyfrwng Cymraeg. Teimlwn y gallai ymchwil pellach sy’n ymgysylltu â disgyblion a’u rhieni, a drosglwyddodd i ysgol cyfrwng Saesneg ar ôl mynychu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn flaenorol, archwilio ffyrdd y gellid bod wedi cyflawni ymgysylltiad parhaus ag addysg cyfrwng Cymraeg, ar ôl y cyfnod trosglwyddo**.**

Darllenwch yr adroddiad llaw

[1]Rydym yn defnyddio ‘teuluoedd di-Gymraeg’ yn y cyd-destun hwn i gyfeirio at deuluoedd sydd fel arfer yn defnyddio Saesneg i gyfathrebu â’i gilydd, yn unigol ac fel uned deuluol, er y byddai aelodau o’r teulu sy’n mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn gallu defnyddio’r Gymraeg gyda’i gilydd h.y. brodyr a chwiorydd neu deulu estynedig pe bai’r cyfle neu’r angen yn codi.

[2]Rydym yn defnyddio ‘rhieni di-Gymraeg’ yn y cyd-destun hwn i gyfeirio at rieni sydd fel arfer yn defnyddio Saesneg i gyfathrebu â’i gilydd, yn unigol ac fel uned deuluol. O ystyried ystod oedran posibl y rhieni, mae’n debygol iawn mai ychydig iawn o wybodaeth o’r Gymraeg a fyddai gan y rheini a gafodd eu haddysg eu hunain yng Nghymru o leiaf. Darperir gwybodaeth am allu ieithyddol y rhieni yn yr adran sampl cyfranogwr. Sylwch hefyd y gall rhiant, gofalwr neu warcheidwad gael ei gwmpasu yn y term ‘rhiant’ yn yr adroddiad hwn.

[3]Mae’r term trosglwyddo a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio’n gyfan gwbl at y broses trosglwyddo a wneir gan ddisgyblion wrth symud o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd.

Health and Care
Research Wales
Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth
Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru

## Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Mae ein timau ymroddedig yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd, gofal cymdeithasol, sefydliadau ymchwil a'r cyhoedd i ddarparu ymchwil hanfodol i fynd i'r afael â heriau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n wynebu Cymru.

Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Ganolfan Dystiolaeth yn ateb cwestiynau allweddol i wella polisi a darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Ynghyd â'n partneriaid cyd-weithio, rydym ni'n cynnal adolygiadau o dystiolaeth bresennol ac ymchwil newydd, i lywio anghenion polisi ac ymarfer, gan ganolbwyntio ar sicrhau budd y byd go iawn a budd cyhoeddus sy'n cyrraedd pawb.

**Cyfarwyddwyr:** Yr Athro Adrian Edwards

**Cyfarwyddwyr Cyswllt** Dr Alison Cooper, Dr Natalie Joseph-Williams, Dr Ruth Lewis

@tystiolaethcym

healthandcareevidence@cardiff.ac.uk

www.researchwalesevidencecentre.co.uk/cy